Golygfa Pump

Rosie, Chloe a Bethan yn eistedd ar y llwyfan

Chloe Nath Ben ddŵad i nhŷ fi noson o'r blaen.

Rosie A?...... be ddigwyddodd?

Chloe Dim byd

Rosie Doedd gynnoch chi ddim condoms? Bethan – dos i nôl 'y mag i, mae gen i loads

Chloe Na, 'dwi'm yn barod

Bethan Chloe, mi fyddi di'n barod pan ti'n barod

Rosie Mi fysa ti'n deud hynny – os 'di hi'n gwrando arna ti fydd hi dal heb neud dim byd pan fydd hi'n sixty!

Bethan Nei di gau dy geg

Rosie Bethan, sori! Ond wir Chloe, os ti'm yn gwneud rywbeth reit fuan, fydd o di cael digon ac mi eith o.

Chloe Dwi'm isio'i golli fo! Be na'i?

Bethan Chloe, os ydi o'n caru chdi go iawn, neith o aros tan ti'n barod.

Rosie Ma' hynna'n llwyth o rwtsh!

Katy'n dod ar y llwyfan fel mam Chloe

Mam Chloe Helo genod, 'da chi'n cael amser da?

Chloe Oh mam – dos o 'ma

Mam Chloe Da' chi isio diod neu rywbeth?

Rosie Mrs Downes, ga'i ofyn rwbath i chi?

Katy Cei siŵr, unrhyw beth .

Rosie Faint oedd eich oed chi pan wnaethoch chi neud .......da chi'n gwybod, efo bachgen, y tro cynta'?

Bethan (methu coelio be' mae Rosie newydd ddeud) Rosie, fedri di'm gofyn hynna!

Mam Chloe Na, ma'n iawn Bethan, wir. Wel, o'n i'n 19 ac efo tad Chloe oedd o.

Chloe Mam, ma' hynna'n disgusting. Plîs dos o 'ma

(seibiant)

Bethan Diolch am adael i ni 'neud ein hunain yn barod yma

Mam Chloe Dim problem o gwbl siŵr Bethan.

Chloe Mam!

Katy Iawn, dwi'n mynd, dwi'n mynd. Gobeithio gewch chi noson dda genod.

Mam Chloe'n gadael y llwyfan

Rosie Pam na nei di roi amser da i Ben heno?

Chloe Amser da? Rosie, dwi'm yn barod i neud petha' efo fo eto.

Rosie Dim rhaid i chdi fynd yr holl ffordd – jyst rho rywbeth bach iddo fo i, ti'n gwbod.... i gadw fo'n hapus!

Bethan Rosie! Ddyla' genod ddim teimlo bod rhaid iddyn nhw neud petha jyst i blesio hogyn sdi! Mi ddyla' fo fod yn rhywbeth sbesial, dim rhywbeth i'w roi rywsut rywsut fel tasa fo'n ddim byd!

Rosie Oh dydi o'm byd siŵr Bethan! Fedra i'm meddwl am neb sy' ddim yn neud o. Da ni yn y twenty first century. Os da ni'n defnyddio condoms fedra i'm gweld be' di'r broblem.

Chloe 'Dwi'm yn gwbod....

Bethan Chloe, os ti'm isio, deud na

Rosie Yli, fedri di ddeud na … neu fedri di jyst deud ia....... a gweld nad ydi o'n ddim byd go iawn.

Bethan a Rosie yn rhewi

Chloe Dwi'n caru Ben a 'dw isio bod efo fo am byth, ond 'dwi'm yn barod i neud o eto. Oes 'na rwbath o'i le efo fi am bod fi ddim isio? Mi fyddwn ni efo'n gilydd am byth, dwi'n siŵr o hynny.....ond dwi dal ddim isio gneud eto.

'Sweet Dreams' Annie Lennox yn dechrau chwarae i ddynodi newid golygfa. Y bechgyn yn cerdded ar y llwyfan a Bethan a Chloe yn helpu i newid y set.